# **Adroddiad Craffu Blynyddol 2022-23** Cyngor Bro Morgannwg

## Rhagair gan Gadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

Croeso i'r adroddiad craffu blynyddol cyntaf, ers i Aelodau Cyngor y Fro gael eu penodi fis Mai 2022 adeg yr Etholiadau Lleol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at brif weithgareddau a datblygiadau craffu yng Nghyngor Bro Morgannwg yn ystod y Flwyddyn Gyngor 2022/23 (mis Mai 2022 i fis Ebrill 2023). Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed gan graffu yn 2022-23 ac yn amlinellu rhaglenni gwaith y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r pum Pwyllgor Craffu wedi bod yn rhan o ystod eang o waith; gan gynnwys herio penderfyniadau allweddol cyn i'r Cabinet eu hystyried, monitro gwelliannau i wasanaethau, cynnal ymweliadau a gweithio gyda phartneriaid ar feysydd allweddol sy'n effeithio ar drigolion y Fro.

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn gwneud gwaith pwysig iawn i Gyngor Bro Morgannwg a'i bartneriaid. Mae'n rhoi tawelwch meddwl i bobl leol, yn cynorthwyo i ddatblygu polisi, yn herio perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau ac yn dwyn y Cabinet i gyfrif am ei benderfyniadau.

Mae Craffu yn 'gyfaill beirniadol', gan gymryd cam yn ôl oddi wrth benderfyniadau o ddydd i ddydd i edrych ar ganlyniadau i drigolion lleol, a'u hadolygu.  Mae Craffu yn y Fro wedi chwarae ei ran yn hyn o beth gan fod yn llais herio a thrwy barhau â rhaglen lawn o gyfarfodydd ar-lein o bell er mwyn sicrhau atebolrwydd llawn.

Gan edrych i'r dyfodol, mae awdurdodau lleol yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol ar ben yr heriau demograffig presennol, costau cynyddol gofal i blant ac oedolion sy'n agored i niwed a'r costau byw cynyddol.  Rwy'n gwybod y bydd Craffu yn cyfrannu at y gwaith o ateb yr heriau hyn drwy weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gefnogi arloesedd o ran sut mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn darparu gwasanaethau a gweithredu fel llais y bobl pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud.

Rwy'n terfynu drwy ddiolch i holl Aelodau pum Pwyllgor Craffu Bro Morgannwg a oedd yn rhan o'r gwaith a drafodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ac i'r Swyddogion a Thîm Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth.  Hoffwn hefyd achub ar y cyfle i ddiolch i drigolion, partneriaid lleol, rhanddeiliaid allweddol a thystion a roddodd o'u hamser i gynorthwyo'r broses Graffu gydol y flwyddyn boed hynny drwy siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu neu gydgysylltu â'u Haelodau lleol.

**Y Cynghorydd Neil Thomas**
***Cadeirydd - Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu***
***ac Is-gadeirydd - Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol***

# Cyflwyniad

Yn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022, cynyddodd aelodaeth y Cyngor o 47 Aelod i 54 o Aelodau Etholedig, gyda nifer sylweddol o Gynghorwyr newydd yn cael eu hethol i'r swydd.   Ar ôl yr etholiad, dechreuodd rhaglen gynhwysfawr o Sefydlu Aelodau, a oedd yn cynnwys er enghraifft hyfforddiant ar Foeseg a Safonau, materion Ariannol, Cydraddoldeb, Diogelu Data, Rheolau Dadlau a sgiliau Cadeirio. Mae datblygu aelodau hefyd yn broses barhaus o fewn y Cyngor ac mae'n parhau yn ôl yr angen gydol cyfnod yr Aelodau Etholedig yn eu swyddi.

Cytunir ar aelodaeth pob un o Bwyllgorau'r Cyngor, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgorau Craffu, yn flynyddol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor, sydd fel arfer yn cael ei gynnal fis Mai bob blwyddyn ac yn 2022 a gynhaliwyd ar 23 Mai.

Ers pandemig Covid-19 mae'r Cyngor wedi parhau i gynnal ei holl gyfarfodydd o bell gyda chyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw, eu recordio at ddibenion archifo a'u lanlwytho i wefan y Cyngor i'w gwylio yn y dyfodol a chan ystyried darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.  Gellir dod o hyd i wybodaeth am reoli cyfarfodydd o'r fath ar wefan y Cyngor ac yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda darparwr datrysiadau hybrid newydd ar gyfer darparu cyfarfodydd hybrid a fydd welir dros y misoedd nesaf. Cyfarfodydd hybrid yw cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn bersonol ac o bell. Cynhaliwyd adolygiad o Bolisi cyfarfodydd Aml-leoliad y Cyngor yn ddiweddar a bydd yn cael ei adrodd i'r Cabinet i'w ystyried ym mis Medi 23.

O ran gwaith y Pwyllgorau Craffu, gall aelodau o'r cyhoedd gofrestru i siarad ar eitemau ar yr agenda ac eithrio lle mae materion o natur eithriedig neu gyfrinachol i'w trafod.  Caiff agendâu ar gyfer y cyfarfodydd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn ogystal â'r weithdrefn ar gyfer siarad yn gyhoeddus.

## Beth yw Craffu?

Mae Craffu yn fodd o sicrhau atebolrwydd agored a democrataidd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan Awdurdodau Lleol sy'n gweithredu Model Arweinydd Gweithredol a Chabinet swyddogaeth drosolwg a chraffu a gaiff ei chyflawni gan aelodau nad ydynt yn aelodau Cabinet sy'n gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r Cabinet i'w ddwyn i gyfrif. Nid pwyllgorau gwneud penderfyniadau yw'r Pwyllgorau Craffu, ond maent yno i fonitro a dylanwadu ar y rhai sydd yn penderfynu, h.y. y Cabinet. Mae'r Pwyllgorau Craffu yn adrodd ar eu gwaith yn ôl i'r Cabinet sydd wedyn yn penderfynu a fydd argymhellion yn cael eu derbyn, ac os na, yn esbonio ei resymau dros ei benderfyniadau.

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn craffu ar wybodaeth rheoli perfformiad a chyllideb y Cyngor a'i bartneriaid ac yn edrych ar feysydd sy'n peri pryder. Gallant hefyd ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol i gyfrif drwy alw penderfyniadau a wnaedd gan y Cabinet i mewn o fewn 5 diwrnod i'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud a sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gynnal adolygiadau manwl. Mae'r Cabinet, yn ei dro, yn ymgynghori â'r Pwyllgorau Craffu ar faterion, ac yn ymateb i argymhellion y Pwyllgorau Craffu. Mae pum Pwyllgor Craffu yng Nghyngor Bro Morgannwg.

Mae'n bwysig nodi bod penderfyniadau ynglŷn â swyddogaethau penodol eraill y Cyngor yn cael eu gwneud gan bwyllgorau 'rheoliadol' y Cyngor fel y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgorau Trwyddedu ac yn wir y Cyngor Llawn ei hun. Nid yw penderfyniadau o'r fath yn rhan o gylch gwaith Craffu.

## Sut mae Craffu yn gweithio yn y Fro?

Mae pum Pwyllgor Craffu yn y Fro ac mae gwaith y Pwyllgorau Craffu yn cyd-fynd yn agos â phedwar **Deilliant Llesiant y Cyngor fel isod -**

| Y **Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol** yw'r Pwyllgor trosolwg ac mae'n ymdrin ag Iechyd Corfforaethol, gwaith mewnol y Cyngor, ei gyllid a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac ef hefyd yw'r Pwyllgor arweiniol ar gyfer Prosiect Sero. | | |
|---|---|---|
| **Deilliannau Llesiant** | **Pwyllgor Craffu** | **Amcanion y Pwyllgor Craffu** |
| *Bro Lewyrchus a Chyfrifol yn Amgylcheddol* | **Yr Amgylchedd ac Adfywio** | • Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.<br>• Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd. |
| *Bro Iach ac Actif* | **Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol** | • *Annog a hyrwyddo ffyrdd actif ac iach o fyw.*<br>• *Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.* |

| | | |
|---|---|---|
| *Bro Gynhwysol a Diogel* | **Cartrefi a Chymunedau Diogel** | • *Darparu cartrefi addas a chymunedau diogel.*<br>• *Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol.* |
| *Bro Uchelgeisiol a Bywiog yn Ddiwylliannol* | **Dysgu a Diwylliant** | • *Gwella safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol*<br>• *Gwerthfawrogi Diwylliant ac Amrywiaeth* |

Yn ystod y blynyddoedd Cyngor blaenorol a chyfredol, mae ein Pwyllgorau Craffu wedi rhoi mwy o bwyslais ar fesur effaith y gwaith y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, mae wedi bod yn bwysig cydnabod yr heriau a wynebir wrth geisio asesu effaith Craffu o gofio nad yw ei ganlyniadau cadarnhaol bob amser yn hawdd eu mesur ac yn aml dim ond dros gyfnodau hirach y dônt i'r amlwg, ac felly ni ellir eu cofnodi'n hawdd trwy Weithdrefnau Adrodd Blynyddol a Thracio Penderfyniadau Chwarterol arferol y Cyngor.

Fodd bynnag, mae rhai metrigau y gellir eu defnyddio i fonitro canlyniadau uniongyrchol Craffu a all, yn eu tro, roi syniad o'i effaith ar brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

<u>Cerdyn Sgorio Craffu Bro Morgannwg 2022-23</u>

| | | |
|---|---|---|
| ○ Nifer Cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu | : | **47** |
| ○ Nifer Cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu a glywodd gan Siaradwyr Cyhoeddus | : | **4** |
| ○ Aelodau o'r Cyhoedd sydd wedi cyflwyno sylwadau ar lafar mewn Cyfarfodydd Craffu | : | **10** |
| ○ % o Eitemau'r Cabinet â mewnbwn gan Craffu<br>*Eitemau sydd wedi eu cyfeirio at y Cabinet gan Bwyllgor Craffu.* | : | **43.3 %** |
| ○ % yr argymhellion Craffu y cytunwyd arnynt gan y Cabinet | : | **63.3%*** |

*DS Allan o 30 o argymhellion a gyfeiriwyd at y Cabinet, cymeradwywyd 19 a chafodd 11 eu nodi.

## Cymorth Craffu

Swyddogion o’r Gwasanaethau Democrataidd sy’n cefnogi Craffu, a’u tasg yw edrych ar ôl prosesau democrataidd yn y Fro. Mae’r gefnogaeth yn cynnwys:

- Rhoi cymorth a chyngor ar y cyfansoddiad i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i Aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â chynhyrchu cofnodion o'u cyfarfodydd a sicrhau bod eitemau sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn gamau gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor ynghylch swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i Aelodau Gweithredol ac Anweithredol y Cyngor a'i Swyddogion.
- Rheoli datblygiad strategol craffu yn y Fro drwy ymgysylltu â mentrau a rhwydweithiau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, gan gefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu;
- Cynghori ar a chefnogi’r gwaith o weithredu gofynion deddfwriaeth, yn enwedig Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Chanllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023;
- Rheoli’r gwaith o gydlynu a datblygu'r Blaenraglenni Gwaith Craffu ar y cyd ag Aelodau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu Craffu, gan gynnwys gweithredu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Craffu, awdurdodi adroddiadau ar y cyd â'r Grwpiau a chynorthwyo i weithredu a monitro adolygiadau a gwblhawyd;
- Rheoli'r Rhaglen Datblygu Aelodau Craffu;
- Anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor Craffu o leiaf bum diwrnod clir (gan gynnwys penwythnosau) cyn cyfarfod.

## Pwyllgorau Craffu a'u Haelodaeth ar gyfer 2022/23

### Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol

Amcanion a Chylch Gorchwyl:

Pwyllgor Trosolwg sy'n ymdrin ag Iechyd Corfforaethol, gwaith mewnol y Cyngor gan gynnwys Llywodraethiant, ei gyllid a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Cadeirydd:** Y Cynghorydd Joanna Protheroe;

**Is-gadeirydd:** Y Cynghorydd Ewan Goodjohn;
**Y Cynghorwyr:** George Carroll, Pamela Drake, Christopher Franks, Stephen Haines, Howard Hamilton; Sally Hanks, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards ac Nicholas Wood

## Yr Amgylchedd ac Adfywio

Amcanion:

- Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd.

Cylch Gwaith:

Rheoli Gwastraff, Cynnal a Chadw Priffyrdd, Cynllunio (ond nid materion fel ceisiadau cynllunio), Trafnidiaeth a Datblygu Economaidd.

**Cadeirydd:** Y Cynghorydd Sandra Perkes;
**Is-gadeirydd:** Y Cynghorydd Julie Aviet;
**Y Cynghorwyr:** Charles Champion, Pamela Drake, Vince Driscoll, Anthony Ernest, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Elliot Penn (o 13 Rhagfyr 2022), Ian Perry a Steffan Wiliam. (Y Cynghorydd Ian Buckley tan 13 Rhagfyr 2022)

## Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol

Amcanion:

- Annog a hyrwyddo ffyrdd actif ac iach o fyw.
- Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.

Cylch Gwaith:

Gwasanaethau Oedolion (fel Cartrefi Gofal), Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (fel y Gwasanaeth Mabwysiadu), Hamdden, Parciau, Chwaraeon a Chwarae.

**Cadeirydd:** Y Cynghorydd Janice Charles;
**Is-gadeirydd:** Y Cynghorydd Neil Thomas;
**Y Cynghorwyr:** Gareth Ball, Christine Cave, Millie Collins, Marianne Cowpe, Robert Fisher, Susan Lloyd-Selby, Julie Lynch-Wilson, Jayne Norman, Helen Payne a Carys Stallard

## Cartrefi a Chymunedau Diogel

Amcanion
- Darparu cartrefi addas a chymunedau diogel.
- Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol.

Cylch Gwaith:
Tai Cyngor a gwaith cynnal a chadw cysylltiedig, Tai'r Sector Preifat, Diogelwch Cymunedol, Trosedd ac Anhrefn (gan gynnwys Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid) a swyddogaethau'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

**Cadeirydd:** Y Cynghorydd Millie Collins;
**Is-gadeirydd:** Y Cynghorydd Belinda Loveluck-Edwards;
**Y Cynghorwyr:** Julie Aviet, Gareth Ball, Ian Buckley, Samantha Campbell, George Carroll, Sally Hanks, William Hennessy, Michael Morgan a Sandra Perkes

Un cynrychiolydd, fel sylwedydd heb bleidlais, o bob un o'r sefydliadau canlynol:

- Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro
- pedwar cynrychiolydd o'r Gweithgor/Panel Tenantiaid

## Dysgu a Diwylliant

Amcanion
- Gwella safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol.
- Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.

Cylch Gwaith:
Pob mater sy'n ymwneud ag ysgolion (sy'n cynnwys Gwella Ysgolion, Addysg Ôl-16, Addysg Gymunedol), Gwasanaethau Ieuenctid, y Gwasanaeth Llyfrgell, Cydraddoldebau, y Gymraeg a Datblygu'r Celfyddydau.

**Cadeirydd**: Y Cynghorydd Rhys Thomas;
**Is-gadeirydd:** Y Cynghorydd Helen Payne;
**Y Cynghorwyr:** Anne Asbrey, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, William Hennessy, Nic Hodges, Julie Lynch-Wilson, Naomi Marshallsea, Jayne Norman ac Elliot Penn

Yn cael eu gwahodd hefyd fel aelodau cyfetholedig:

Yn cael eu gwahodd hefyd fel sylwedyddion heb bleidlais:

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Gatholig | Cynrychiolwyr o'r sectorau Cynradd ac Uwchradd |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Addysg Gymraeg |
| Rhiant-lywodraethwr – Y Sector Uwchradd | Penaethiaid |
| Rhiant-lywodraethwr - Y Sector Cynradd | Cyngor Ieuenctid y Fro x 2 |
| | Fforwm Ieuenctid y Fro x 2 |
| | Eglwysi Rhyddion |
| | Ysgolion Arbennig |

# Meysydd Allweddol o Weithgarwch Craffu gan bob Pwyllgor Craffu yn ystod 2022-23

## Pwyllgor Craffu: *Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol*

## Polisi a Strategaeth Caffael

Gweithgarwch: Cyflwynwyd cyfeiriad/adroddiad i'w ystyried ym mis Mawrth 2023 ar y Polisi a'r Strategaeth Caffael newydd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau perthnasol gan y Pwyllgor. Roedd y Polisi a'r Strategaeth newydd yma wedi symud ymlaen oddi ar fersiwn 2018 ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol diweddaraf a hefyd mentrau polisi newydd gan Lywodraeth Cymru (LIC) o ran caffael. Roedd y Polisi a'r Strategaeth newydd hefyd yn gyfle i symleiddio a gwneud yr amcanion polisi yn 'fwy grymus', gan gynnwys amlygrwydd ychwanegol i Brosiect Sero a mwy o gymorth i fusnesau bach a chanolig (BBaCh) a busnesau lleol. Roedd y Strategaeth hefyd yn rhoi pwyslais ychwanegol ar werthoedd cymdeithasol ac 'ymestyn' cyflenwyr y Cyngor i helpu i ddilyn amcanion y Cyngor, gan gynnwys safonau disgwyliedig a dymunol yn ogystal â cheisio gwahaniaethu rhwng cwmnïau bach a mawr.

Deilliant: Craffodd y Pwyllgor ar y Polisi a'r Strategaeth gyda nifer o bwyntiau ac ymholiadau’n cael eu codi, gan gynnwys pwysigrwydd cydnabod ymdrechion y Cyngor i fod yn Sefydliad Sero Net erbyn 2030, yr angen am fwy o eglurhad ar yr hyn yw oriau gwaith gormodol, a'r angen i gynnwys ymrwymiad bod cyflenwyr yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr.

Ymhlith yr ymholiadau eraill a godwyd oedd prinder swyddogion Cyngor perthnasol i gynorthwyo gyda'r Polisi a’r Strategaeth Caffael a’r ffaith y dylai gwerth am arian fod yn ystyriaeth 'sylfaenol' i'r Cyngor a'i amcanion. Cafodd y ffocws ar Werth Cymdeithasol yn y Strategaeth ei groesawu, ond roedd angen cynnwys gweledigaeth gaffael Bro Morgannwg fwy penodol. Yn olaf, awgrymwyd bod cynllun gweithredu yn cael ei gynnwys i gwmpasu'r hyn y gellid ei gyflawni ar gyfer y flwyddyn, gyda'r ddogfen yn ddogfen 'fyw', i'w hadolygu'n flynyddol.

Yn dilyn hynny, ystyriwyd y pwyntiau hyn a'r pwyntiau eraill a godwyd yn y cyfarfod gan y Swyddogion, gyda'r argymhellion canlynol yn cael eu cyfeirio i’r Cabinet:

- Bod y Polisi a'r Strategaeth yn cynnwys y gofyniad bod busnesau, y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â nhw o ran caffael, yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Bod y Polisi a'r Strategaeth yn cynnwys mwy o eglurhad ar beth yw oriau gwaith gormodol.

Penderfynodd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 13 Ebrill 2023, fod yr argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol yn cael eu cymeradwyo a bod y Strategaeth yn cael ei diwygio yn unol â hynny.

## Pwyllgor Craffu: *Cartrefi a Chymunedau Diogel*
## <u>Cyflwyniad Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru</u>

<u>Gweithgarwch:</u> Fel rhan o waith dilynol a diweddariad o gyfarfod blaenorol, rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2023 ar fynd i'r afael â gweithgarwch 'siarcod benthyg arian' yng Nghymru, a oedd yn tynnu sylw at weithgareddau diweddar, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a diweddariad ar y mater. Cafodd y cyflwyniad ei roi gan Uned Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru (ASBAC) (Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru gynt), sydd wedi'i lleoli yn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ym Mro Morgannwg i ymchwilio i ac erlyn benthycwyr arian anghyfreithlon (a elwir hefyd yn 'siarcod benthyg arian').

<u>Deilliant:</u> Craffodd y Pwyllgor ar waith ASBAC, gan gwestiynu 'cyrhaeddiad' daearyddol gweithgarwch siarcod benthyg arian, nifer y troseddwyr cysylltiedig, y mesurau a gymerwyd i ddileu 'stigma' ac ofn ymhlith dioddefwyr siarcod benthyg arian rhag dod ymlaen a'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr. Codwyd hefyd beryglon 'tlodi mewn gwaith' o ran gwneud pobl yn fwy agored i niwed gan siarcod benthyg arian. Oherwydd hyn, gofynnwyd i'r Aelodau rannu unrhyw gysylltiadau a allai fod ganddynt gydag Undebau Llafur, ac ati gyda'r uned ASBAC er mwyn sefydlu gwell cysylltiadau. Yn dilyn hynny, mae Aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi bod yn rhan o godi ymwybyddiaeth a chreu cysylltiadau gydag undebau a grwpiau cyflogeion gydag ASBAC h.y. byddai cyflwyniad ASBAC yn cael ei rannu gyda Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd Cyngor Bro Morgannwg. Anogodd yr Aelodau ASBAC i gysylltu ag ysgolion a llywodraethwyr ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u gwaith a'r materion cysylltiedig, a dosbarthu taflenni a phosteri mewn llyfrgelloedd, meddygfeydd a derbynfeydd landlordiaid cymdeithasol er mwyn cyrraedd trigolion heb fynediad i'r cyfryngau cymdeithasol. Yn dilyn awgrymiadau gan y Pwyllgor, sefydlodd ASBAC, ar y cyd â'r Gwasanaethau Democrataidd, sesiwn friffio a hyfforddi, sy'n hygyrch i holl Aelodau Etholedig Cyngor Bro Morgannwg, er mwyn codi ymwybyddiaeth o weithgareddau siarcod benthyg arian, ac ati er budd trigolion.

## Pwyllgor Craffu: *Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol*
## <u>Gwasanaeth Cwympiadau Ymateb Cyflym</u>

<u>Gweithgarwch:</u> Ym mis Tachwedd 2022, cyflwynwyd adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor ar waith y Gwasanaeth Teleofal dros y 18 mis blaenorol yn ogystal â Datblygiadau Gwasanaeth yn dilyn Adolygiad y Gwasanaeth Teleofal a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2021. Un o'r argymhellion tymor hwy yn adroddiad yr adolygiad oedd "ystyried hyfywedd Gwasanaeth Cwympiadau Ymateb Cyflym ar gyfer cwsmeriaid presennol ac i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid newydd". Cydnabu'r Pwyllgor y pwysau ar y gwasanaethau brys am wasanaeth ymateb cyflym i bobl a oedd wedi cwympo gartref, ond y byddai Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn eu hasesu fel blaenoriaeth isel. Ymatebodd tîm Cyswllt Un Fro y Cyngor i dros 500 o alwadau'r flwyddyn a arweiniodd at Teleofal yn gorfod

gwneud galwad i Ambiwlans Cymru. O'r rhain roedd bron i 50% am i bobl gwympo gartref, a oedd yn aml yn gorfod aros oriau os nad dyddiau i ambiwlans eu cyrraedd - gallai hyn gael effeithiau trychinebus ar iechyd pobl pe na allen nhw godi ar eu traed. Byddai Gwasanaeth Ymateb Cyflym, a fyddai'n cael ei weithredu drwy Teleofal yn gallu cynnig ymateb cynnar a byddai'n gallu cynorthwyo'r person i gadair a/neu gynnal asesiad lles i lywio blaenoriaeth o ran ambiwlans.

Deilliant: Yn dilyn llwyddiant cynllun peilot yn Nwyrain y Fro (a ddechreuodd ar 1 Mawrth 2022 ac a ddaeth i ben ar 31 Hydref 2022) a chyda'r uchelgais i ddarparu Gwasanaethau Cwympiadau ledled y Fro, cysylltodd y Cyngor ag Ambiwlans Sant Ioan i ddarparu gwasanaeth Ymateb Cyflym i bob rhan o'r sir o 3 Hydref 2022. Fel gyda'r cynllun peilot, cafodd y gwasanaeth ei gyrchu trwy Larwm Teleofal person, drwy'r Gwasanaeth Monitro Teleofal 24 awr. Manteision ymgysylltu ag Ambiwlans Sant Ioan oedd y sicrwydd a roddwyd gan staff wedi'u hyfforddi'n llawn a'r cysylltiadau a fodolai eisoes â'r gwasanaethau brys eraill yn ôl yr angen. Nid oedd y trefniant hwn yn costio unrhyw beth i'r cwsmer a chafodd cynnydd ei fonitro'n agos gan y Pwyllgor Craffu.

## Pwyllgor Craffu: *Yr Amgylchedd ac Adfywio*
## Rheoli Ailgylchu a Gwastraff

Gweithgarwch: Ym mis Chwefror 2023, ystyriodd y Pwyllgor Craffu newidiadau gwasanaeth i Reoli Ailgylchu a Gwastraff a hefyd Strategaeth Rheoli Ailgylchu a Gwastraff y Cyngor (2022-2032). O ran y newidiadau gwasanaeth, roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno tâl tanysgrifio o 1 Gorffennaf ar gyfer casglu gwastraff gwyrdd.
- Byddai'r ffi danysgrifio ar gyfer gwastraff gwyrdd yn cynnwys tâl o £36 y flwyddyn am hyd at 4 bag bob pythefnos a £54 am 8 bag (o fewn 72 awr).
- Roedd darpariaeth hefyd ar gyfer casgliadau untro am 50c y bag ar gyfer y tanysgrifwyr gwastraff gwyrdd a byddai tâl hanner blwyddyn ar gael o fis Awst 2024.
- Newid i amlder casgliadau bagiau du i 3 bag yn cael eu casglu bob 3 wythnos.

Deilliant: Mae'r Pwyllgor, am ei fod yn awyddus i olrhain effaith y newidiadau gwasanaeth, wedi gofyn i adroddiad monitro wedi ei ddiweddaru gael ei gyflwyno gyda'r bwriad bod hwn yn dod i law erbyn mis Hydref 2023, gyda'r adroddiad yn cynnwys asesiad o nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaethau a'r effaith ar gasgliadau gwastraff. Yn ogystal, fel darn dilynol o waith, aeth Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar ddau ymweliad safle. Roedd yr ymweliad cyntaf â Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff y Bont-faen Ddydd Llun 27 Mawrth 2023 ac roedd yr ymweliad dilynol â Chanolfan Ailgylchu a Gwastraff y Cartref y Barri ar 28 Ebrill 2023. Galluogodd y ddau ymweliad i'r Aelodau weld drostynt eu hunain y gweithrediadau gwastraff ac ailgylchu ym Mro Morgannwg.

## Pwyllgor Craffu: *Dysgu a Diwylliant*

**Astudiaeth Genedlaethol Archwilio Cymru: Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau): mwy nag ymarfer blwch ticio?**

**Gweithgarwch:** Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod Ddydd Iau 08 Rhagfyr 2022, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau astudiaeth genedlaethol Archwilio Cymru a oedd yn edrych ar y dull cyffredinol o gynnal AEGau mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Fel rhan o'r rhaglen waith archwilio genedlaethol ar gyfer 2021/22, edrychodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddulliau 44 o gyrff cyhoeddus (sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) o gynnal AEGau, gan ganolbwyntio'n benodol ar nodi arfer da neu ddiddorol ac unrhyw feysydd cyffredin i'w gwella. Amlygodd "Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau): Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio" ganfyddiadau allweddol y gwaith hwn. Daeth yr adolygiad i'r casgliad, yn gadarnhaol, fod llawer o gyrff cyhoeddus yn defnyddio canllawiau anstatudol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) a'r Ganolfan Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru i lunio eu hymagweddau, fodd bynnag, nid oedd AEGau yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial, yn enwedig o ran hyrwyddo cydraddoldeb a chydlyniant. Cafodd meysydd allweddol i'w gwella eu hamlinellu i'r Pwyllgor hefyd. Cafodd pedwar argymhelliad eu gwneud, un wedi'i anelu'n benodol at gyrff cyhoeddus, i adolygu eu dull cyfredol o gynnal AEGau. Mewn ymateb i'r argymhelliad uchod, byddai'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Swyddog Cydraddoldebau Corfforaethol yn bwrw ymlaen ag adolygiad o broses AEGau y Cyngor o fewn y chwe mis nesaf ac yn rhoi amrywiaeth o gamau ar waith i hyrwyddo'r broses a'i defnydd o fewn y sefydliad dros y flwyddyn i ddod.

**Canlyniad:** Craffodd y Pwyllgor ar yr adroddiad a'i ganfyddiadau, ac yng ngoleuni'r materion y tynnwyd sylw'r Pwyllgor atynt yn flaenorol ynghylch sut roedd gorbryder wedi effeithio'n negyddol ar ailintegreiddio rhai disgyblion i leoliadau ysgol ar ôl y pandemig, dwedodd yr Is-gadeirydd y byddai'n croesawu pwyslais pellach ar anabledd sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, fel agwedd ar anghydraddoldeb posibl. Oherwydd hyn, argymhellodd y Pwyllgor gyfeirio'r sylw canlynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet er mwyn iddo ei ystyried a chymeradwyo camau arfaethedig y Cyngor i fynd i'r afael ag argymhelliad Archwilio Cymru (A4): "Mae'r Pwyllgor o'r farn nad oes digon o adrodd ar anghydraddoldeb iechyd meddwl ac mae'r mater hwn yn effeithio'n sylweddol ar y boblogaeth a'r gweithlu. Felly, mae'n bwysig canolbwyntio ar anabledd sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r byd wedi'r pandemig a'r anhawster o ran rhai pobl ifanc ac oedolion yn ail gysylltu â'r ysgol neu'r gwaith." Cymeradwyodd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 13 Ebrill 2023 argymhellion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 8 Rhagfyr 2022 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023 (a oedd hefyd wedi cymeradwyo'r sylwadau blaenorol gan Dysgu a Diwylliant) a byddai'n ceisio cynnwys y safbwyntiau hynny yn y gwaith wrth symud ymlaen.

## Clywed Gennych Chi

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn awyddus i glywed gan aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb ar faterion gerbron y Pwyllgorau a/neu am awgrymiadau o bynciau i'w hystyried ac i graffu arnynt yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgorau'n awyddus i ddeall safbwyntiau a phrofiadau cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gan ddefnyddio gweithdai, ymarferion ymgynghori a chanlyniadau arolygon i gasglu adborth.  Gellir dod o hyd i'r ddolen i'r ffurflen i gynnig pwnc yma.

Mae cyfleoedd hefyd yn cael eu rhoi i aelodau o'r cyhoedd, partneriaid, rhanddeiliaid allweddol i gyfrannu tystiolaeth a siarad mewn cyfarfodydd i ehangu dealltwriaeth a llywio trafodaethau.  Mae pob cyfarfod, ynghyd â'r adroddiadau (heblaw am faterion cyfrinachol), yn cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor ac yn dilyn cyhoeddi agendâu ar y wefan, mae ffurflenni cofrestru i siarad yn gyhoeddus ar gael ar y wefan ar yr un pryd. Gellir dod o hyd i'r ddolen i'r cofnodion a'r agendâu ar y wefan yma.

Gellir dod o hyd i'r ddolen i'r canllaw ar siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfod craffu hefyd yma.  Mae'n bwysig nodi, yn dilyn adolygiad o Bolisi Aml-leoliadau'r Cyngor y bwriedir ei ystyried gan Gabinet y Cyngor ym mis Medi 2023, y bydd unrhyw ddiwygiadau i'r canllaw ar siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfod craffu, os oes angen, yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl wedi hynny ac yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn ac yn cael eu cynnwys hefyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Gofynnir i aelodau o'r cyhoedd sy'n cofrestru i siarad hefyd roi adborth ar y broses, fodd bynnag, nid yw hyn yn ofyniad gorfodol ond ystyrir unrhyw wybodaeth pan gynhelir adolygiadau o'r canllaw ar siarad yn gyhoeddus.

# Edrych tua'r Dyfodol

Bydd y Pwyllgorau yn parhau i:

- Graffu ar ba mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion, fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor gyda newid yn y Weinyddiaeth;
- Gwneud cyfraniadau cadarnhaol i waith datblygu polisi, ac i'r gwelliant parhaus yn swyddogaethau'r Cyngor;
- Edrych ar effaith yr arbedion ariannol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyflawni, a chraffu ar oblygiadau torri pellach ar adnoddau;
- Gwerthuso cynigion ynghylch gwasanaethau a fydd yn deillio o brosiect Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor;
- Monitro lefelau cyrhaeddiad ein disgyblion ac asesu'r heriau sy'n wynebu ysgolion;
- Ystyried datblygu cynaliadwy ac archwilio cyfleoedd am gyllid;
- Craffu ar waith ac effaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chonsortiwm Canolbarth y De a, thrwy graffu ar y cyd, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;

- Adeiladu ar Raglen Datblygu Aelodau fanwl y Cyngor, i ystyried dulliau craffu arloesol pellach, ac edrych ar sut y gall craffu ychwanegu gwerth ac annog cyfranogiad y cyhoedd;
- Gwneud gwaith Gorchwyl a Gorffen yn ôl yr angen o ran amcanion y Cyngor.

Yn ogystal â'r uchod, cyflwynir crynodeb o rai o'r eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgorau Craffu wrth symud ymlaen isod.

**Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol:**

- Diweddariad ar ymdrechion y Cyngor ynghylch Prosiect Sero, wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a chyflawni ei ymrwymiadau fel rhan o'r prosiect hwn.
- Diweddariad ar y cynnydd a wnaed ar ddatblygu'r gwasanaeth hwn mewn gwasanaethau cysylltiadau cwsmeriaid yng Canolfan Gyswllt Un Fro, pwynt cyswllt sengl y Cyngor i drigolion Bro Morgannwg ar gyfer gwybodaeth a chyngor am ei wasanaethau.
- Dogfen 'myfyrdodau' ynghylch Prosiect Oracle Fusion ar ôl ei weithredu, gan gynnwys 'gwersi a ddysgwyd' o weithredu'r system allweddol hon ar gyfer gweithredu'r Cyngor.
- Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg. Trosolwg o feysydd gweithgaredd Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

**Yr Amgylchedd ac Adfywio:**

- Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Strategaeth a Ffefrir
- Diweddariad ar newidiadau i'r Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff
- Prosiect Sero – Diweddariad a monitro cynnydd
- Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd Tair Blynedd 2022 – 2024 diwygiedig.

**Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol:**

- Archwiliad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg [Gwasanaethau Cymdeithasol] - Asesiad Arolygiaeth Gofal Cymru o berfformiad Cyngor Sir Bro Morgannwg wrth arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth.

- Ailsefydlu Gweithgor Canolfan Hamdden [Gwasanaethau Hamdden] – I gynorthwyo i fynd i'r afael â rhan o Adroddiad Archwilio Cymru (Ionawr 2021) a amlygodd rywfaint o'r wybodaeth y dylai aelodau etholedig fod yn ymwybodol ohoni a chael diweddariad arni'n rheolaidd o ran y Contract Rheoli Hamdden.

**Cartrefi a Chymunedau Diogel:**

- Diweddariad ar yr Arolwg Tenantiaid a Thrigolion. Diweddariad i'r Aelodau ar ganlyniadau'r Arolwg o Foddhad Tenantiaid a Thrigolion diweddaraf. Mae hwn yn arolwg ar raddfa fawr o holl denantiaid Cyngor Bro Morgannwg er mwyn cael gwybod am lefelau boddhad, gan gynnwys adborth tenantiaid ar yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud yn dda a pha feysydd yr oedd angen eu gwella.
- Diweddariadau ar y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid ar gyfer 2021 – 2026 ac ar y cynnydd a wnaed o ran system hunanwasanaeth ddigidol y Cyngor, yn ymwneud â thai ac atgyweiriadau.
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid: Adroddiad Perfformiad 12 Mis ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. I sicrhau bod Craffu yn gallu goruchwylio perfformiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn erbyn dangosyddion y DU/datganoledig/lleol.

**Dysgu a Diwylliant:**

- Diweddariad addysg ar Raglen Adsefydlu Syria a gwybodaeth am ddisgyblion eraill sydd â statws ffoadur – Hydref 2023
- Diweddariad addysg ar y plant o Deuluoedd y Lluoedd Arfog – Hydref 2023
- Diweddariad ar Ymgysylltiad a Datblygiad Ieuenctid - Tachwedd 2023

**<u>Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau -</u>**

Mae rhestr lawn o'r holl eitemau wedi'u cynnig i'w trafod gan y Pwyllgorau Craffu ar eu rhaglenni gwaith yn ystod 2023/24 i'w gweld ar wefan y Cyngor yma

## Eisiau Gwybod Mwy?

Os hoffech chi wybod mwy am waith Craffu, ewch i:
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/scrutiny/Scrutiny.aspx

Ewch i'n gwefan i weld dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r cyfarfodydd Craffu nesaf:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/minutes,_agendas_and_reports/minutes-agendas-and-reports.aspx

## A allaf wylio cyfarfod Pwyllgor Craffu?

Ar hyn o bryd mae cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn cael eu ffrydio'n fyw wrth iddynt gael eu cynnal ar wefan y Cyngor a'u recordio at ddibenion archifo.
Gellir dod o hyd i'r ddolen i wylio cyfarfod Pwyllgor Craffu yma.

Neu gallwch gysylltu â’r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu gan ddefnyddio’r manylion isod:

Ffôn: **01446 709413 / 709856** E-bost: democratic@valeofglamorgan.gov.uk